

Bwletin Gwanwyn CEDAR

Mehefin 2026, Rhifyn 14

Mae CEDAR wedi ymrwymo i gefnogi gofal claf-ganolog, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, trwy ymchwil a gwerthuso ymyriadau iechyd, technolegau a gwasanaethau'r GIG.

CEDAR: Canolfan ar gyfer Gwerthuso, Asesu Dyfeisiau ac Ymchwil Gofal Iechyd

Newyddion CEDAR

- Llongyfarchiadau i [Katherine Woolley](#), arweinydd newydd ffrwd waith Gwerthuso CEDAR!
- Mynychodd sawl aelod o dîm synthesis tystiolaeth CEDAR gynhadledd flynyddol NICE ym Manceinion yn ystod mis Mawrth. Roedd y gynhadledd yn cynnwys sesiynau yn canolbwyntio ar Gynllun 10 Mlynedd y GIG, datblygiadau digidol mewn technolegau iechyd a chydweithio rhyngwladol mewn Asesu Technoleg Iechyd.
- Cymerodd Dirprwy Gyfarwyddwr CEDAR, [Judith White](#), ran mewn cyflwyniad yn seminar ymchwil therapiâu BIPCAF, gan siarad am sut y gall CEDAR gefnogi staff CAF i ymgymryd ag ymchwil o ansawdd uchel ac effeithiol.
- Llongyfarchiadau i [Agatha Hills](#), Gwyddonydd Gwerthuso CEDAR, am godi dros £600 i Ymchwil Canser Cymru wrth redeg Hanner Marathon Prag.
- Llongyfarchiadau hefyd i Meg Kiseleva, Adolygydd Systematig yn CEDAR a [SURE](#), a gododd £450 i gefnogi [OUCH](#), elusen cur pen clwstwr, trwy gynnig sesiynau tango byr a hwyliog.
- Mynychodd sawl aelod o staff CEDAR [Gynhadledd Ymchwil Canser Cymru](#) eleni, gyda chyflwyniadau yn ymdrin â'r datblygiadau diweddaraf mewn ymchwil cancer a chyfle i gysylltu ag ymchwilwyr cancer ledled Cymru.
- Cynhaliodd aelodau o dîm CEDAR grŵp ffocws wyneb yn wyneb gyda chyfranogwyr â sglerosis ymledol mewn cydweithrediad ag [Immunoserv](#). Gallwch ddarllen mwy am hyn yn ein hadran uchafbwyntiau prosiect.
- Cyflawniad enfawr i astudiaeth [STEP CARE!](#) Gyda chefnogaeth tîm rheoli treialon CEDAR, mae'r hap-dreial rheoledig aml-ganolfan rhyngwladol hwn sy'n astudio strategaethau tawelyddu, tymheredd a phwysedd gwaed, bellach wedi recriwtio 3,500 o gleifion.

Cenhadaeth CEDAR yw cydweithio â thimau clinigol i ddarparu ymchwil a gwerthuso ymatebol, effeithiol, o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar y claf, er mwyn gwella canlyniadau i bobl yng Nghymru ac yn ehangach.

Yn Y Rhifyn Hwn

Newyddion CEDAR

Uchafbwyntiau diweddar gan y tîm

Uchafbwyntiau'r Prosiect

Darganfyddwch pa brosiectau sydd wedi camu ymlaen yn CEDAR y chwarter hwn.

Sbotolau Staff

Clywch gan Rebecca ein Swyddog Cymorth Prosiectau



Newyddion CEDAR

Cyhoeddiadau Diweddar

- [‘Describing and monitoring quality in value-based palliative and end-of-life care at a population level in Wales: achievements and future direction’ - Woolley et al \(2026\)](#). Mae’r erthygl hon yn disgrifio cynnydd Cymru wrth fonitro ansawdd gofal i bobl yn eu blwyddyn olaf o fywyd ar draws chwe maes ansawdd, ac yn amlinellu’r gofynion, yr heriau, a chyfeiriad y dull hwn yn y dyfodol.
- [‘From patient voice to clinical practice: recommendations from the national evaluation of the lupus service in NHS Wales’ - Beddard et al \(2026\)](#). Mae poster a gyflwynwyd yng nghynhadledd SLEuro ym Mhortiwalg wedi’i gyhoeddi yng nghyfnodolyn Lupus Science & Medicine.
- [‘Confidence to Self-Manage in Diabetes: An All-Wales Cross-Sectional Population Study’ - Rollings et al \(2026\)](#). Edrychodd yr erthygl hon ar bobl â diabetes yng Nghymru a’r cysylltiad rhwng hyder i hunanreoli, lles a derbyniadau dewisol.
- [‘Increasing conscious sedation use for dental treatments: a cost and consequences analysis. British dental journal.’ Chong et al \(2026\)](#). Gwerthusodd yr erthygl hon gostau a chanlyniadau cynyddu’r defnydd o dawelyddion ymwybodol mewn oedolion sy’n derbyn triniaeth ddeintyddol mewn gofal eilaidd.
- [‘Wales’ participation in the OECD PaRIS survey: exploring the logistics of a large-scale patient-reported outcome survey’ Pruski et al \(2026\)](#). Mae’r erthygl hon yn disgrifio sut y gweithredodd Cymru astudiaeth PaRIS OECD yn annibynnol i ddeall a yw gofal iechyd yn diwallu anghenion pobl. Llwyddodd i ddenu cyfranogiad cryf - dros 25,000 o ymatebion gan gleifion - a chynhyrchu un o’r setiau data PaRIS mwyaf cynhwysfawr, sydd bellach yn cael ei ddefnyddio i lywio mewnwelediadau iechyd y boblogaeth ac arwain polisi cenedlaethol a gwella gwasanaethau.

Uchafbwyntiau’r Prosiect

Rhwystrau a hwyluswyr i gael mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol ar gyfer y menopos: Adolygiad Tystiolaeth Ansoddol Cyflym

Mae’r menopos yn nodi’r pwynt ym mywyd unigolyn pan fydd y mislif yn dod i ben yn barhaol ac fe’i diffinnir fel absenoldeb mislif am fwy na blwyddyn. Gall y newid i’r menopos ddigwydd dros sawl blwyddyn a gall person gael amrywiaeth o symptomau, gan bara ar gyfartaledd am 7 mlynedd ac mewn rhai achosion hyd at 15 mlynedd. Rhwng 2018–2023, cynyddodd rhagnodi therapi adfer hormonau (HRT) i leihau symptomau’r menopos ledled Cymru, ond roedd y twf hwn yn ffafrio pobl sy’n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn anghymesur (Y Weithrediaeth, 2024).

Mae CEDAR wedi cael eu comisiynu trwy Drawsnewid Gwerth ym Mherfformiad a Gwella GIG Cymru (a elwid gynt yn Ganolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru) mewn partneriaeth â Rhwydwaith Iechyd Menywod i gwblhau adolygiad tystiolaeth cyflym.

Gan ddefnyddio dulliau synthesis cyflym, nododd yr adolygiad 15 thema allweddol yn ymwneud â rhwystrau a hwyluswyr wrth gael mynediad at a defnyddio gofal sylfaenol ar gyfer unigolion â symptomau sy’n gysylltiedig â’r menopos.

Mae’r canfyddiadau’n tynnu sylw at yr heriau a’r ffactorau a all gefnogi gwell mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol. Bydd y dystiolaeth hon yn llywio’n uniongyrchol werthusiad parhaus o ddefnydd HRT ledled Cymru, a arweinir hefyd gan CEDAR.

Y Weithrediaeth. (2024). Cynllun Iechyd Menywod GIG Cymru: 2025–2035. <https://executive.nhs.wales/functions/networks-and-planning/womens-health/the-womens-health-plan-for-wales/>

Nod gwaith CEDAR oedd:

- Deall y rhwystrau a’r hwyluswyr i gael mynediad at a defnyddio gwasanaethau gofal sylfaenol ar gyfer unigolion â symptomau sy’n gysylltiedig â’r menopos.
- Archwilio gwahaniaethau ym mhrofiadau pobl yn seiliedig ar ffactorau demograffig

Arddangosfa Dulliau: Casglu data ansoddol

Mae Mike Beddard (Uwch Ymchwilydd ac Arweinydd Cynnwys y Cyhoedd) yn disgrifio gwaith ansoddol CEDAR:

Mae ymchwil a gwerthuso ansoddol yn caniatáu inni archwilio ffenomenau cymdeithasol, gan ddarparu gwybodaeth fanwl am brofiadau a safbwyntiau bywyd, a mewnwediadau a dealltwriaeth ddyfnach ar bynciau cymhleth na all dulliau meintiol yn unig eu dal. Mae CEDAR yn ymgymryd ag ystod amrywiol o brosiectau ansoddol a dulliau cymysg, ar lefel leol a rhyngwladol. Mae ein staff yn fethodolegwyr profiadol iawn, sy'n cymryd cyfrifoldeb am ddylunio astudiaethau, recriwtio, dadansoddi ac adrodd.

Mae gennym brofiad o weithio gydag ystod amrywiol o gyfranogwyr, gan gynnwys staff clinigol, plant, oedolion agored i niwed, ac ar bynciau sensitif. Mae ymgysylltu ystyrlon â chleifion a phartneriaid cyhoeddus newydd a phresennol yn sicrhau bod llais y claf yn ganolog i'n gwaith. Rydym yn ymdrechu i wneud cyfranogiad yn ein hastudiaethau mor hygyrch â phosibl. Er enghraifft, gallwn hwyluso cyfranogiad trwy ddefnyddio dehonglwyr laith Arwyddion Prydain, ac rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio'r laith Gymraeg.

Rydym yn dylunio pob prosiect i gyd-fynd â gofynion, amserlenni a chyllidebau penodol. Mae ein cymorth yn amrywio o gasglu mewnwediadau cyflym trwy arolygon byr a sgysiau anffurfiol cyflym, hyd at werthusiad cynhwysfawr llawn sy'n cynnwys cyfweiliadau manwl a grwpiau ffocws.

Mae ein dulliau ansoddol yn cefnogi amrywiaeth eang o brosiectau. Mae'r rhain yn cynnwys gwerthusiadau, megis y [Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gwasanaeth Lwpws yn GIG Cymru](#) a ariennir gan Lywodraeth Cymru; ymchwil, megis [Astudiaeth Ddichonoldeb HELPP](#) (a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru), ac [Adnewyddu PREM Cenedlaethol](#) (a ariennir gan Lywodraeth Cymru).

I ddarllen mwy am ein gwaith ansoddol, ewch i'n gwefan [yma](#).

Sbotolau Staff

Rebecca Hughes,
Swyddog Cymorth Prosiectau yn CEDAR



Dywedwch ychydig wrthym amdanoch chi a'ch rôl:

Ymunais â CEDAR yn llawn amser bron i flwyddyn yn ôl, ar ôl ymuno ar secondiad rhan-amser wrth weithio yn adran i'oneiddio Ffiseg Feddygol. Ers hynny, rydw i wedi cael y cyfle i gyfrannu at ystod eang o brosiectau CEDAR, sy'n cadw'r gwaith yn amrywiol ac yn ddiddorol iawn.

Pa 3 gair fydddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio CEDAR?

Deinamig, Brwdfrydig, Digidol

Beth yw eich hoff ran o'ch swydd?

Mae'r amrywiaeth o brosiectau gwahanol yn golygu fy mod i bob amser yn dysgu am rywbeth newydd.

Dewiswch archbêr?

Hedfan - am y teimlad o blymio o'r awyr bob dydd!

Pe gallech chi gael 'arbenigwr gwadd' i ymuno â'r tîm am ddiwrnod, pwy fydddech chi'n ei ddewis?

David Attendborough. Gallai adrodd ein cyfarfodydd ac yn sydyn byddai popeth yn teimlo'n ddwfn ac yn fawreddog.

Os oes gennych gynnig ymchwil ac yr hoffech siarad â'n tîm, cysylltwch â ni neu llenwch ein [ffurflen gais am gefnogaeth](#)

Ewch i'n gwefan:

